# TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD Y PENDERFYNIAD** | 8 Rhagfyr 2021 |
| **DYDDIAD CYHOEDDI'R PENDERFYNIAD** | 10 Rhagfyr 21 |
| **DYDDIAD Y BYDD Y PENDERFYNIAD YN DOD I RYM** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25.1 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd. | 17 Rhagfyr 2021 |

**ENW A THEITL YR AELOD CABINET**

Y Cynghorydd Dafydd Meurig – Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant

**PWNC** Apwyntio Enwebai ar ran y Cyngor er mwyn derbyn Llythyrau Gweinyddu

**PENDERFYNIAD –** I apwyntio Dafydd Richard Jones , Cyfreithiwr o Wasanaeth Cyfreithiol Cyngor Gwynedd, fel Enwebai ar ran y Cyngor er mwyn derbyn Llythyrau Gweinyddu mewn perthynas ag ystadau yr holl bersonau ymadawedig y mae gan y Cyngor yr hawl i'w gweinyddu fel credydwr.

**RHESWM DROS YR ANGEN AM Y PENDERFYNIAD –**

Gweler yr Adroddiad Swyddog atodedig

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Dim

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD-**

Ymgynghorwyd â –
Swyddogion Statudol Cyngor Gwynedd

Adroddir ar ganlyniadau'r ymgynghoriadau yn yr adroddiad atodedig

**TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD – ADRODDIAD SWYDDOG**

| | |
|---|---|
| Enw a theitl yr Aelod/au Cabinet : | Cynghorydd Dafydd Meurig – Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant |
| Enw a theitl Awdur yr Adroddiad : | Iwan G D Evans Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol |
| Dyddiad y Cymerwyd y Penderfyniad: | 08.12 2021 |
| Llofnod yr Aelod/au Cabinet : |  Derbyn yr argymhelliad. |

**Pwnc : Apwyntio Enwebai ar ran y Cyngor er mwyn derbyn Llythyrau Gweinyddu**

**Argymhelliad ar gyfer y Penderfyniad :**

> **I apwyntio Dafydd Richard Jones , Cyfreithiwr o Wasanaeth Cyfreithiol Cyngor Gwynedd, fel Enwebai ar ran y Cyngor er mwyn derbyn Llythyrau Gweinyddu mewn perthynas ag ystadau yr holl bersonau ymadawedig y mae gan y Cyngor yr hawl i'w gweinyddu fel credydwr.**

**Cefndir**

1. Dan ddarpariaethau Rhan 4 o Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lesiant( Cymru ) 2014 mae gan awdurdodau cyhoeddus ddyletswydd I gyfarch anghenion unigolion sydd wedi eu hasesu . Dan Rhan 5 o'r Deddf gall awdurdod lleol godi tal am ddarparu gwasanaethau yn seiliedig ar asesiad o allu yr unigolyn i dalu. Mae'r ddeddfwriaeth yn darparu y gall y Cyngor ohirio'r taliadau am ofal hyd y gwerthir eiddo'r preswylydd ac yna adennill y swm dyledus allan o elw'r gwerthiant. Mae hyn yn osgoi'r angen am werthiant gorfodol lle efallai nad yw'r

preswylydd eto’n teimlo’n barod i werthu. Mae Cyngor Gwynedd wedi gweithredu’r hawl yma’n rheolaidd ac wedi gohirio’r taliadau.

2. Mewn rhai achosion nid yw’r eiddo’n cael ei werthu tan ar ôl i’r preswylydd farw. Mewn achosion o’r fath gwerthir yr eiddo gan weinyddwyr y stâd fel rheol ac fe delir dyled y Cyngor. Fodd bynnag, mae rhai achlysuron lle mae’r ddyled i’r Cyngor yn fwy na amcangyfrif gwerth yr eiddo ac mae’r ysgutorion arfaethedig yn anfodlon derbyn y cyfrifoldeb am weinyddu’r stâd er budd y Cyngor yn unig.

3. Mewn achosion felly nid oes opsiwn arall gan y Cyngor ond gweinyddu’r ystadau yn ei gapasiti fel credydwr, os am adennill y symiau hyn yn rhannol os nad yn llawn. Mae angen sicrhau grant o Lythyrau Gweinyddu er mwyn profi hawl i weinyddu’r ystadau. Er mwyn ceisio am y grant, mae’n ofynnol o dan Reolau Profiant fod y Cyngor yn enwebu person a enwir i ymgeisio ar ran y Cyngor, a fod penderfyniad ffurfiol dan sêl i’r diben hyn. Bydd angen amgáu copi ardystiedig o’r penderfyniad hwn gyda’r cais, ac yna bydd grant yn cael ei roi yn enw’r enwebai er defnydd a budd y Cyngor.

5. Yn ein gyfarfod ar y 20fed o Dachwedd 2012 penderfynodd y Cabinet:

**Awdurdodi’r Aelod Cabinet Gofal i apwyntio aelod o staff o Uned Gyfreithiol Cyngor Gwynedd, fel Enwebai ar ran y Cyngor er mwyn derbyn Llythyrau Gweinyddu yn y dyfodol mewn perthynas ag ystadau yr holl bersonau ymadawedig y mae gan y Cyngor yr hawl i’w gweinyddu fel credydwr.**

**YMGYNGHORIADAU**

**Sylwadau Aelod Lleol:**

Dim yn fater ward unigol

**Swyddog Monitro**

Awdur yr Adroddiad

**Swyddog Cyllid**

Dim gwrthwynebiad o safbwynt priodoldeb ariannol.